University of South Wales
Prifysgol De Cymru

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

CYNLLUN YMGYSYLLTIAD DINESIG
CIVIC ENGAGEMENT SCHEME

## Cynllun Ymgysylltu Dinesig I Fyfyrwyr

# GWIRFODDOLI



**Ewch ati i Wirfoddoli ac ymuno â'n cynllun Ymgysylltu â'r Genhadaeth Ddinesig!**



# Beth gewch chi o gymryd rhan?

## Lleoliad sy’n ffitio i mewn gyda’ch amserlen.

Cewch brofiad gwerthfawr yn y sector elusennol, yn ogystal ag amrywiaeth o sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer eich gyrfa yn y dyfodol.

Bydd yn rhoi blas ar fyd gwaith, tra byddwch yn datblygu sgiliau megis gweithio mewn tîm, cyfathrebu ac ymwybyddiaeth gymdeithasol.

Cewch gysylltiadau rhwydweithio gwerthfawr â gweithwyr proffesiynol a darpar gyflogwyr.

Hyfforddiant pellach posibl mewn meysydd megis cymorth cyntaf, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac ati.

Gwybod eich bod wedi bod yn sbardun ar gyfer newid ac effaith bositif




## Ein Haddewid

Rydym yn sicrhau bod yr holl sefydliadau sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Ymgysylltu Dinesig yn parchu ein polisïau er mwyn eich diogelu fel gwirfoddolwr.

Mae'r rhain yn cynnwys:
Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac rydym yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr lleoliadau gefnogi amgylchedd gwaith amrywiol.

Iechyd a Diogelwch:
Bydd y Drindod Dewi Sant yn gwneud yn siŵr bod prosesau Iechyd a Diogelwch mewnol wedi eu cyflawni er mwyn sicrhau y gall y lleoliad fynd yn ei flaen.

**Bydd eich Swyddogion Datblygu Ymgysylltu Dinesig yn gweithio gyda chi ar bob cam i sicrhau bod eich lleoliad yn mynd yn ddidrafferth ac i'ch cefnogi chi.**



## Astudiaeth Achos

# Digwyddiad Coed Nadolig Mynydd Cilfái

Darparodd y digwyddiad goed Nadolig rhad ac am ddim ar gyfer un o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, ac ar yr un pryd, daeth â phobl leol i'r mynydd – safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig a'r coetir trefol mwyaf yn y DG.

Bu gwirfoddolwyr amgylcheddol y Drindod Dewi Sant yn gweithio ar y mynydd, mewn sesiynau wythnosol, er mwyn paratoi'r mynydd am y digwyddiad. Roedd hyn yn cynnwys clirio llwybrau a gwneud yr ardal yn ddiogel, yn ogystal â thynnu rhai o'r coed llai o faint prysgog.

Wedyn helpodd gwirfoddolwyr y Drindod Dewi Sant ar y diwrnod gyda'r trefniadau a gweithdai byrfyfyr. Daeth mwy na 250 o bobl leol gan fynd â mwy na 500 o goed.

Dyma 500 o goed lleol a fyddai wedi cael eu symud drwy gwympo coed yn y dyfodol agos ac na chawsant eu tyfu ar ffermydd masnachol sy'n defnyddio glyffosad yn chwynladdwr. Gwnaethant glirio oddeutu erw o dir a gaiff ei adael i hunan-hadu gyda bedw, gwern, a choed cyll. Ni ellid gwneud y gwaith hwn heb waith gwirfoddolwyr.

# Pam cymryd rhan yn y Cynllun Ymgysylltu Dinesig?

**Yn y Drindod Dewi Sant, mae ymgysylltu â'r gymuned wrth wraidd ein gwaith. Boed hynny'n rhan fwriadol o'ch gradd neu yn ystod gweithgareddau allgyrsiol.**

Mae'r Cynllun Ymgysylltu Dinesig yn rhoi cyfle i chi gael profiad gwerthfawr yn y trydydd sector, ym meysydd cadwraeth a'r amgylchedd, gofal a gwaith cymdeithasol, yn y celfyddydau a'r sector diwylliannol, ymhlith eraill. Byddwch yn gallu cefnogi aelodau'r gymuned leol a gwneud gwahaniaeth ym mywydau pobl.

- Oes gennych ddiddordeb mewn gwneud gwahaniaeth yn y byd o'n cwmpas?
- Hoffech chi roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned tra byddwch yn astudio yn y Drindod Dewi Sant?
- Ewch ati i Wirfoddoli ac ymuno â'n cynllun Ymgysylltu â'r Genhadaeth Ddinesig!






# Sut i gymryd rhan

**Cysylltwch â Ni:**
Anfonwch e-bost atom yn *volunteer@uwtsd.ac.uk* am ragor o wybodaeth a'r ffurflen ymholiad cychwynnol

**Ffurflen Gais:**
Llenwch y ffurflen Ymholiad Cychwynnol a dweud wrthym am beth rydych yn chwilio. Bydd hon yn ein helpu i ddod o hyd i gyfle priodol sy'n iawn i chi ac i'ch amgylchiadau.

Byddwn yn cysylltu â chi gyda'r cyfleoedd ac yn eich cael chi'n barod i ddechrau.

Wedi dynodi cyfle yn barod? Gallwn ni ddal i'ch helpu i gychwyn ar bethau.

**Adborth:**
Ar ddiwedd eich lleoliad byddwn yn cysylltu â chi gyda ffurflen adborth i fesur llwyddiant eich lleoliad.




## Cwrdd â’r Tîm



**Anna Jones**
Pennaeth Ymgysylltu Dinesig
*Anna.jones@uwtsd.ac.uk*



**Laura Cait Driscoll**
Swyddog Datblygu Ymgysylltu Dinesig
*L.driscoll@uwtsd.ac.uk*



**Nicola Powell**
Swyddog Datblygu Ymgysylltu Dinesig
*Nicola.powell@uwtsd.ac.uk*

**Hoffech chi gymryd rhan?**

**e-bost:**
**volunteer@uwtsd.ac.uk**